# Stori'r Geni



## Stori'r Bugeiliaid

# Stori'r Geni

## Stori'r Bugeiliaid



**Gwybodaeth Gefndirol**

- Roedd bugeiliaid yn gofalu am ddefaid dros nos i'w cadw'n ddiogel rhag potswyr ac anifeiliaid gwyllt.
- Doedd swydd bugail ddim yn cael ei hystyried yn grefyddol neu'n un o statws uchel; fydden nhw rioed wedi disgwyl i Dduw siarad â nhw drwy angylion
- Siaradodd un angel gyda nhw i ddechrau, ac wedyn roedd yr awyr yn llawn o angylion yn canu mawl i Dduw.
- Dewisodd y bugeiliaid ymateb i'r hyn ddwedodd yr angylion a mynd i weld Mair a Joseff, a Iesu yn gorwedd yn y preseb (cafn bwydo anifeiliaid).




**Yn y Beibl**

- Gelli ddarllen am y bugeiliaid yn y Beibl, yn llyfr Luc, pennod 2, adnod 8 i adnod 20.



**Teimladau ac Emosiynau**

- Byddai'r bugeiliaid wedi dychryn a synnu fod angylion wedi ymweld â nhw.
- Fydden nhw ddim yn deall pam oedd y neges am eni Iesu wedi'i roi iddyn nhw.
- Byddai'r baban wedi bod yn y cafn bwydo anifeiliaid, yn union fel roedd yr angel wedi dweud wrthyn nhw.



**Gweithgaredd gydag oedolyn**

- Rhannwch y dosbarth yn dri grŵp a rhoi swigod siarad a meddwl i bob un grŵp. Dylai'r grŵp cyntaf feddwl am sut fyddai'r bugeiliaid wedi teimlo pan welon nhw yr angel, yna ysgrifennu eu hymateb yn y swigod. Dylai'r ail grŵp feddwl sut fyddai'r bugeiliaid wedi teimlo pan welon nhw Iesu gyda Mair a Joseff, yna ysgrifennu eu syniadau yn y swigod. Dylai'r trydydd feddwl am a chofnodi beth fyddai'r bugeiliaid wedi'i ddweud wrth ei gilydd, ac wrth eraill, wrth fynd nôl at y defaid ar ôl gweld Iesu. Ar ôl rhai munudau yn y grwpiau, dowch â'r dosbarth cyfan nôl at ei gilydd i drafod beth fuon nhw'n siarad amdano.



**Myfyrio**

- Mae stori'r bugeiliaid yn dangos un o lawer o adegau yn y Beibl pan mae Duw yn dewis pobl annisgwyl i gwblhau ei fwriadau. Mae'r Beibl yn dweud fod dim gwahaniaeth yng ngolwg Duw rhwng cyfoethog a thlawd, ifanc a hen, bachgen neu ferch; mae Duw yn caru pawb ac mae pawb yn bwysig ac yn werthfawr yn ei olwg.

C Pa wahaniaeth fyddai hi'n ei wneud yn dy ysgol, cymuned neu dref di, pe bai pawb yn gwerthfawrogi a chydnabod pwysigrwydd pob unigolyn?